



**cartrefi gwell, dyfodol disglair
better homes, brighter future**

DATGANIAD I'R WASG
Dyddiad: 18 Ionawr 2011

Staff cynnal a chadw Tai Ceredigion yn gweithio'n galed dros gyfnod y Nadolig

Bu tîm cynnal a chadw y tu allan i oriau gwaith arferol Tai Ceredigion yn gweithio'n ddi-baid dros gyfnod y Nadolig a'r Calan. Gyda chymorth contractwyr preifat lleol, ymatebodd y tîm i dros 100 o alwadau am wasanaeth brys gan denantiaid yn ardal Ceredigion. Roedd y problemau'n amrywio o bibellau dŵr wedi rhewi a byrstio i broblemau â boeleri a oedd wedi torri, toiledau a sinciau a oedd wedi'u blocio, a hyd yn oed un achos lle'r oedd dŵr yn llifo i mewn i fflatiau.

Tra oedd y rhan fwyaf ohonom yn eistedd wrth y bwrdd i fwynhau ein cinio ar Ddydd Nadolig, roedd aelodau ymroddedig o'r Tîm Llafur Uniongyrchol yn ateb galwadau ac yn ymweld â thenantiaid i ddatrys eu problemau.

Meddai Steve Jones, Prif Weithredwr Tai Ceredigion, "Hoffem ddiolch i aelodau'r Tîm Llafur Uniongyrchol am eu holl waith caled a'u hymrwymiad dros gyfnod y gwyliau. Mae ein tenantiaid yn dibynnu'n helaeth iawn arnynt, yn enwedig gan fod nifer fawr ohonynt yn bobl hŷn a bregus sydd, felly, yn agored i niwed os nad oes ganddynt wres neu ddŵr twym."

DIWEDD

Nodiadau i olygyddion

Gallwch gael mwy o wybodaeth ynghylch Tai Ceredigion trwy gysylltu â Kate Williams, Rheolwr Cyfrif Cysylltiadau Cyhoeddus ar **07786 550054 / 01970 636418** neu kate@fbagroup.co.uk.

1. Tai Ceredigion yw'r gymdeithas dai ddi-elw newydd sydd wedi'i sefydlu yn yr ardal. Bydd yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r cyngor a phartneriaid eraill sy'n gweithio yn yr ardal i helpu i ddiwallu anghenion tenantiaid, preswylwyr a lesddeiliaid Ceredigion.
2. Mae gan Tai Ceredigion 2229 o gartrefi rhent a 140 eiddo ar brydles. Yn flaenorol, Cyngor Ceredigion oedd yn berchen ar y cartrefi hyn ac yn eu cynnal a'u cadw. Mae angen cynnal a chadw'r holl gartrefi hyn a sicrhau eu bod yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.
3. Mae cyllid newydd gan Lywodraeth y Cynulliad a buddsoddiad gan Fanc Barclays yn golygu bod rhyw £136 miliwn ar gael ar gyfer cynllun busnes 30 mlynedd Tai Ceredigion. Yn flaenorol, roedd cyfyngiadau llym ar allu cynghorau i fenthyca arian ar gyfer tai, a châi cyllidebau eu neilltuo.
4. Mae gan Tai Ceredigion statws elusennol, sy'n sicrhau y gellir ailfuddsoddi mwy o incwm mewn gwella cartrefi tenantiaid a rheoli'r gwasanaeth tai.
5. Cafodd y trosglwyddiad ei gymeradwyo gan fwyafrif y tenantiaid a bleidleisiodd, ac mae'n golygu bod llawer mwy o gyllid ar gael yn awr ar gyfer gwaith cynnal a chadw arfaethedig, gwelliannau i eiddo, a gwaith codi tai newydd ar gyfer pobl leol yn y tymor hwy.
6. Mae Tai Ceredigion yn bwriadu gwario hyd at £40 miliwn ar welliannau yn ystod y pum mlynedd nesaf, ac mae wedi dechrau ymgynghori â thenantiaid a lesddeiliaid ynghylch sut i gyflwyno'r rhaglen hon.